GIG 111 Cymru

GIG CYMRU NHS WALES



# Ar-lein.
# Ar y ffôn.

Cyngor gofal iechyd y gallwch ymddiried ynddo 24 | 7.

**Pecyn cymorth**

**111.GIG.CYMRU**

# Trosolwg

## I gynyddu ymwybyddiaeth, dealltwriaeth ac ymddiriedaeth bod GIG 111 Cymru yn helpu cleifion i gael y gofal iawn, yn y lle iawn, y tro cyntaf.

Bydd yr ymgyrch farchnata aml-sianel hon yn cael ei lansio'n feddal ar 14 Tachwedd trwy actifadu digidol (cymdeithasol yn daliedig ac organig) gyda chefnogaeth cysylltiadau cyhoeddus a digidol y tu allan i'r cartref.

Bydd yr ymgyrch yn cynyddu o 26 Rhagfyr gyda hysbyseb deledu newydd yn cael ei darlledu ar deledu, Fideo ar Alw, radio darlledu a digidol, cyfryngau cymdeithasol a digidol, cysylltiadau cyhoeddus a gweithgarwch dylanwadwyr.

Mae pecyn cyfryngau cymdeithasol a phoster cychwynnol ar gael i'w lawrlwytho yma. Disgwylir i'r rhan fwyaf o asedau ar gyfer yr ymgyrch farchnata gyhoeddus gael eu hychwanegu o ganol mis Rhagfyr.

# Yr ymgyrch

## Amcan craidd ein hymgyrch yw i gynyddu ymwybyddiaeth o GIG 111 Cymru

Ar hyn o bryd, mae diffyg ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a hyder ynghylch dewisiadau amgen sy'n glinigol ddiogel yn lle mynychu'r ysbyty – gan gynnwys GIG 111 Cymru.

Fel rhan o'r Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, caiff yr ymgyrch hon ei noddi gan Nod 2, "Cyfeirio pobl ag anghenion gofal brys i'r lle iawn, y tro cyntaf". Ei nod yw cynyddu ymwybyddiaeth, dealltwriaeth ac ymddiriedaeth yn GIG 111 Cymru, a helpu cleifion ag anghenion gofal brys i gael y gofal iawn, yn y lle iawn, y tro cyntaf.

Bydd yr ymgyrch hon yn annog ymddygiadau digidol yn gyntaf, lle bydd pobl yn defnyddio gwefan GIG 111 Cymru, gan gynnwys y gwirwyr symptomau ar-lein, cyn dibynnu ar fathau mwy traddodiadol o ofal wyneb yn wyneb, ac felly'n galluogi lefelau uwch o ddibyniaeth a gwydnwch personol.

Bydd yn annog pobl i ddefnyddio GIG 111 Cymru mewn sefyllfa sy'n frys ond nad yw'n bygwth bywyd, yn hytrach na ffonio 999 a/neu fynd i adrannau achosion brys ysbytai.

Mae'r ymgyrch hon yn ffurfio chwaer gangen i ymgyrch ehangach GIG Cymru a Llywodraeth Cymru 'Helpwch Ni i'ch Helpu Chi'.

# Cysondeb brand

GIG 111 Cymru

Darparwr | Gwasanaeth | Lleoliad

Cyfeiriwch bob amser at y gwasanaeth fel GIG 111 Cymru i sicrhau nad oes unrhyw ddryswch rhwng y gwasanaeth hwn a gwasanaethau eraill y GIG, neu wasanaethau tebyg sy’n bodoli mewn mannau eraill ar draws y DU.

# Negeseuon allweddol

[ GIG 111 Cymru. Ar-lein. Ar y ffôn. ]

[ GIG 111 Cymru. Cyngor gofal iechyd y gallwch ymddiried ynddo - 24 | 7 ]

[ Ewch i wefan GIG 111 Cymru i wirio'ch symptomau a dod o hyd i wasanaethau gofal iechyd lleol. ]

[ Ar gyfer pryderon brys ond rhai nad ydynt yn bygwth bywyd, ffoniwch 111. ]

# Amseru*

## Cam Un
### dyddiad lansio 14eg Tachwedd

Bydd y cam cyntaf yn cael ei arwain gan y digidol, yn organig ac yn daliedig, i godi ymwybyddiaeth o wasanaeth GIG 111 Cymru yn ystod cyfnod prysur o bwysau ar wasanaethau cyn y Nadolig.

Bydd y cam hwn yn dibynnu ar randdeiliaid allweddol yn rhannu negeseuon i godi ymwybyddiaeth o wasanaeth GIG 111 Cymru, gydag un neges syml.

Rydym wedi paratoi detholiad o bosteri ac asedau digidol yn barod i chi eu rhannu **yma.**

Byddwn hefyd yn cynnal ymgyrch sgrin ddigidol 2 wythnos yn ystod pythefnos cyntaf mis Rhagfyr yng Nghaerdydd ar gyfer gwelededd uchel a chyrhaeddiad yn arwain at y Nadolig .

## Cam Dau
### dyddiad lansio 26ain Rhagfyr

Bydd yr ail gam yn cynnwys hysbyseb teledu a radio newydd yn cael ei darlledu i gartrefi ledled Cymru drwy deledu a radio byw a gwasanaethau ar-alwad.

Bydd yr hysbyseb teledu yn cael ei gefnogi gan hysbysebion y tu allan i'r cartref ledled Cymru ar fysiau, digidol taliedig, ac ysgogiad dylanwadwyr. Byddwn yn rhannu asedau i'w hamserlennu cyn y Nadolig, **peidiwch â chyhoeddi asedau cam dau tan 26ain Rhagfyr.**

*ewch i https://padlet.com/nhs111wales am amserlen o weithgareddau arfaethedig

# Sut allwch chi helpu?

- Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol:
  @GIG111Cymru
- Rhannwch negeseuon cyfryngau cymdeithasol a graffeg o 14eg Tachwedd 2022
- Lawrlwythwch y posteri printiadwy i'w harddangos yma
- Lawrlwythwch yr asedau digidol yn y Gymraeg a'r Saesneg yma
- Rhannwch unrhyw brofiadau cadarnhaol o ddefnyddio GIG 111 Cymru

# Asedau - Cymdeithasol Statig




Sgwâr




Tirwedd

# Asedau – Carwsél cymdeithasol













# Asedau - Stori cymdeithasol












# Copi cymdeithasol ategol (tri opsiwn)

Rydym wedi amlinellu tri opsiwn isod i gyd-fynd ag asedau cymdeithasol. A fyddech cystal â chadw at y geiriad hwn i'n helpu i sicrhau cysondeb yn y neges am wasanaeth GIG 111 Cymru. Os oes angen unryw gymorth neu arweiniad arnoch, cysylltwch â'r Arbenigwr Cyfathrebu 111, Naomi Machin – naomi.machin@wales.nhs.uk

## Opsiwn 1

Mae GIG 111 Cymru yn darparu cyngor gofal iechyd arbenigol 24 | 7, ar-lein ac ar y ffôn, i'ch helpu i gael y gofal iawn, yn y lle iawn, y tro cyntaf.

## Opsiwn 2

Os ydych chi'n teimlo'n sâl, ond ddim yn siŵr beth i'w wneud, neu ble i fynd, gall GIG 111 Cymru helpu. Gall GIG 111 Cymru ar-lein wirio'ch symptomau, darparu cyngor gofal iechyd dibynadwy, a dod o hyd i'ch meddyg teulu lleol, fferyllfeydd, Uned Mân Anafiadau a gwasanaethau proffesiynol eraill gerllaw.

## Opsiwn 3

Os oes gennych chi neu anwylyd bryder brys nad yw'n bygwth bywyd, ffoniwch 111 a bydd y rhai sydd wedi'u hyfforddi'n drylwyr yn rhoi cyngor dibynadwy i chi ar eich camau nesaf.

# Testun ALT delwedd neges cymdeithasol

## Asedau - Cymdeithasol statig

Mae'r testun yn darllen '111. Ar-lein. Ar y ffôn. Cyngor gofal iechyd y gallwch ymddiried ynddo - 24 | 7. 111.gig.cymru'. Mae logos GIG 111 Cymru a GIG Cymru yn y gornel dde uchaf. Mae'r bathodyn swigen siarad Cymraeg oren a logos Recite Me, Relay UK a Sign Video yn y gornel dde ar y gwaelod.

## Asedau - Carwsél cymdeithasol

1. Mae'r testun yn darllen '111. Ar-lein. Ar y ffôn. 111.gig.cymru'. Mae logos GIG 111 Cymru a GIG Cymru yn y gornel dde uchaf.
2. Mae'r testun yn darllen 'gwiriwch eich symptomau ar 111.gig.cymru. 111.gig.cymru.' Mae logos GIG 111 Cymru a GIG Cymru yn y gornel dde uchaf.
3. Mae'r testun yn darllen 'ar gyfer pryderon brys ond nad ydynt yn bygwth bywyd, ffoniwch 111. 111.gig.cymru.' Mae logos GIG 111 Cymru a GIG Cymru yn y gornel dde uchaf.
4. Mae'r testun yn darllen '111. Cyngor gofal iechyd y gallwch ymddiried ynddo - 24 | 7. 111.gig.cymru.' Mae logos GIG 111 Cymru a GIG Cymru yn y gornel dde uchaf.

## Asedau - Stori cyfryngau cymdeithasol

1. Mae'r testun yn darllen '111. Ar-lein. Ar y ffôn. 111.gig.cymru'. Mae logos GIG 111 Cymru a GIG Cymru yn y gornel dde uchaf.
2. Mae'r testun yn darllen 'gwiriwch eich symptomau ar 111.gig.cymru. 111.gig.cymru.' Mae logos GIG 111 Cymru a GIG Cymru yn y gornel dde uchaf.
3. Mae'r testun yn darllen 'ar gyfer pryderon brys ond nad ydynt yn bygwth bywyd, ffoniwch 111. 111.gig.cymru.' Mae logos GIG 111 Cymru a GIG Cymru yn y gornel dde uchaf.
4. Mae'r testun yn darllen '111. Cyngor gofal iechyd y gallwch ymddiried ynddo - 24 | 7. 111.gig.cymru.' Mae logos GIG 111 Cymru a GIG Cymru yn y gornel dde uchaf.

'Gallwch ddarganfod sut i ychwanegu testun ALT yma

# Poster A3 ac A4





A3




A4

# Asedau digidol mewnol




Baner e-bost




Baner fewnrwyd

# GDN digidol (sampl)




Sgwâr




Tirwedd

# Posteri digidol



# Copi cylchlythyr

## Copi hir – 143 gair

111. Arlein. Ar y ffôn.

Cyngor gofal iechyd y gallwch ymddiried ynddo 24 | 7.

Os ydych chi'n teimlo'n sâl, ond ddim yn siŵr beth i'w wneud, neu ble i fynd, gall GIG 111 Cymru helpu.

Mae GIG 111 Cymru yn darparu cyngor gofal iechyd arbenigol 24 awr y dydd, ar-lein ac ar y ffôn, gan ei gwneud yn haws i chi gael y gofal iawn, yn y lle iawn, y tro cyntaf.

Gall gwefan GIG 111 Cymru wirio'ch symptomau, darparu cyngor gofal iechyd dibynadwy, a'ch helpu i ddod o hyd i'ch meddyg teulu lleol, fferyllfeydd, Uned Mân Anafiadau a gwasanaethau proffesiynol eraill gerllaw.

Os oes gennych chi neu anwylyd bryder brys nad yw'n bygwth bywyd, ffoniwch 111 a bydd ein swyddogion trin galwadau hyfforddedig yn rhoi cyngor dibynadwy i chi ar eich camau nesaf.

GIG 111 Cymru

## Copi byr – 99 gair

111. Arlein. Ar y ffôn.

Cyngor gofal iechyd y gallwch ymddiried ynddo 24 | 7.

Os ydych chi'n teimlo'n sâl, ond ddim yn siŵr beth i'w wneud, neu ble i fynd, gall GIG 111 Cymru helpu. Mae GIG 111 Cymru yn darparu cyngor gofal iechyd arbenigol 24 awr y dydd, gan ei gwneud yn haws i chi gael y gofal iawn, yn y lle iawn, y tro cyntaf.

Os oes gennych chi neu anwylyd bryder brys nad yw'n bygwth bywyd, ffoniwch 111 a bydd swyddogion trin galwadau hyfforddedig yn rhoi cyngor dibynadwy i chi ar eich camau nesaf.

GIG 111 Cymru

GIG 111 Cymru

GIG CYMRU NHS WALES